# NEWYDDION Y CANOLBWYNT - RHAGFYR 2023

## ARDDANGOSFA SWYDDI CONWY

Bydd y Ffair Swyddi a Gyrfaoedd sirol flynyddol sy'n cwmpasu pob sector yn ôl y flwyddyn nesaf!

- Dydd Iau 22 Chwefror 2024, 1pm-5pm
- Yr Ysgubor, Canolfan Ddigwyddiadau Eirias, Bae Colwyn

Mae'r digwyddiad unigryw hwn yn helpu cyflogwyr gyda'u hanghenion recriwtio trwy eu cysylltu nhw â phobl sy'n chwilio am swyddi sy'n chwilio am:

- Waith Llawn Amser / Rhan-amser
- Prentisiaethau
- Lleoliadau Profiad Gwaith
- Rolau Gwirfoddolwyr

Mae'n arbed amser i fusnesau wrth ddod o hyd i dalent unigryw, ffres a gwerthfawr ac mae'n galluogi busnesau i godi ymwybyddiaeth o'u brand a gweledEdd eu busnes yn y farchnad swyddi gystadleuol.

Bydd y digwyddiad hefyd yn cynnwys colegau a sefydliadau hyfforddi i'r rhai sydd eisiau dysgu sgiliau newydd neu ddatblygu sgiliau presennol.

Mae'n cael ei drefnu gan Hwb Cyflogaeth Conwy a'r Adran Gwaith a Phensiynau, gyda chefnogaeth gan Creu Menter, Cymorth i Fusnesau Conwy a Chymru'n Gweithio sy'n cael ei ddarparu gan Gyrfa Cymru; Mae'n RHAD AC AM DDIM i arddangos yn Ffair Swyddi Conwy, felly a allwch chi fforddio ei golli?

**Cofrestrwch Rŵan:**

Alice 07548 845679 neu 01492 575989 / Clare 07892 709837 neu 01492 577202

E-bost cyflogwyr@conwy.gov.uk

## CYNLLUN GWARANTU CYFWELIAD

Mae Cynllun Gwarantu Cyfweliad newydd Canolbwynt Cyflogaeth Conwy wedi'i ddylunio i wneud eich proses recriwtio'n haws!

Yn ddiweddar, bu i'r Canolbwynt lansio Cynllun Peilot Gwarantu Cyfweliad i gyfranogwyr sydd wedi cofrestru i'w rhaglen, ac oherwydd y llwyddiant maen nhw'n gyffrous iawn o allu cynnig y cyfle i'r holl gyflogwyr ar draws Conwy i fod yn rhan o'r cynllun.

Mae rhaglen y Canolbwynt wedi cynnig gwasanaeth paru swyddi pwrpasol i gyflogwyr lleol ers amser maith, gan helpu i wella'r prosesau recriwtio a chefnogi busnesau a sefydliadau i nodi ymgeiswyr addas ar gyfer swyddi. Mae'r Cynllun Gwarantu Cyfweliad yn mynd gam ymhellach drwy ddenu mwy o bobl sy'n chwilio am swyddi i'w rhaglen ac ehangu'r gronfa o ymgeiswyr y mae'n gallu ei roi o flaen cyflogwyr. Bydd yr holl ymgeiswyr yn cael eu rhagsgrinio a dim ond yr ymgeiswyr mwyaf addas sy'n bodloni holl fanylion y swydd fydd yn cael cyfweliad, gan arbed amser ac arian i gyflogwyr, a rŵan yw'r amser i fanteisio ar y gwasanaeth ychwanegol hwn.

Os hoffech gofrestru ar gyfer y cynllun neu os hoffech fwy o wybodaeth, cysylltwch â Clare Kingscott ar 01492 577202 / 07892 709837 neu [cyflogwyr@conwy.gov.uk](mailto:cyflogwyr@conwy.gov.uk)

## GWEITHIO’N IACH – CEFNOGI PRESWYLWYR CONWY I GAEL GWAITH

Mae RCS yn falch o allu cynnig cefnogaeth i breswylwyr Conwy i gael gwaith.

Mae Gweithio’n Iach ar gael i bobl sy’n byw yng Nghonwy, sydd allan o waith ar hyn o bryd ac sydd â chyflwr iechyd meddwl fel iselder neu hwyliau isel, gorbryder neu byliau o banig ac ati.

Gall y rhaglen gynnig:

- Cymorth un i un wrth chwilio am swydd
- Cymorth mentora a hyfforddiant
- Cwnsela cyn cyflogaeth
- Cysylltu â chyflogwyr i drafod unrhyw addasiadau
- Cymorth unwaith y byddwch mewn gwaith
- Gweithdai hyfforddiant cyflogadwyedd

I gael rhagor o wybodaeth, cliciwch yma - https://rcs-wales.co.uk/cy/eich-cefnogi-chi-i-mewn-i-waith/

Os wyddoch chi am rywun a fyddai’n cael budd o’r cynllun Gweithio’n Iach, anogwch nhw i gysylltu heddiw: workwell@rcs-wales.co.uk | 01745 336442

## CYRSIAU GRŴP LLANDRILLO MENAI I GYFLOGWYR

Yn ddiweddar, mae Grŵp Llandrillo Menai wedi diweddaru eu gwybodaeth am y cyrsiau sydd ar gael i gyflogwyr a gweithwyr.

**Newidiadau i Brentisiaethau - Meini Prawf Cymhwyso**
Wyddoch chi fod y meini prawf cymhwyso wedi’i lacio i’w gwneud yn haws i weithwyr presennol gofrestru ar gyfer Prentisiaethau?

Mae hyn yn golygu y gall busnesau ddefnyddio prentisiaethau i ddatblygu sgiliau a chadw’r gweithlu presennol.

**Prentisiaeth Lefel 3 mewn Rheoli Ynni - Nawr ar Gael**
Mae Diploma Lefel 3 Agored Cymru mewn Rheoli Ynni a Charbon yn edrych ar y sgiliau a’r wybodaeth sydd ei angen ar gyfer rheoli defnydd ynni ac allyriadau carbon o fewn sefydliad. Mae hefyd yn ystyried cynaliadwyedd yr holl adnoddau yn cynnwys rheoli dŵr a gwastraff.

Mae gan Grŵp Llandrillo Menai hefyd ystod o gyrsiau Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl ar gael i weithwyr a rheolwyr.

Am fwy o wybodaeth am y Prentisiaethau, cyrsiau neu i gael trafodaeth am y dewisiadau cyllido a ddiweddarwyd sydd bellach ar gael, cysylltwch â Zoe Kelly, Ymgynghorydd Datblygu Busnes ar 07811 028 054.

## CYLLID CRONFA FFYNIANT GYFFREDIN Y DU AR GYFER HYFFORDDIANT

Mae Canolbwynt Cyflogaeth Conwy wedi sicrhau £292,510 gan Lywodraeth y DU trwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU i ddarparu swyddi hanfodol ac academïau hyfforddiant addysg ledled y sir am y 12 mis nesaf.

Bydd diwydiannau sydd â phrinder llafur yn lleol yn cael eu targedu, gan gynnwys Ynni a'r Amgylchedd, Adeiladu, Gweithgynhyrchu Uwch, Creadigol a Digidol, Twristiaeth a Lletygarwch, Iechyd a Bwyd a Ffermio.

Mae'r amserlen hyfforddiant ddwys eisoes wedi dechrau, wedi'i harwain gan sefydliadau allweddol ym mhob sector ac mae eisoes wedi sicrhau rôl ar gyfer un o'r cyfranogwyr:

Mynychodd Haydn Foulkes y Llwybr Twristiaeth a Lletygarwch sy'n cael ei gynnal mewn partneriaeth â Go North Wales, a oedd yn cynnwys sesiynau yng Ngwesty'r Quay yn Neganwy a Gwesty'r Hilton yn Nolgarrog.

Dywedodd Haydn, "Bu i ni ddysgu llawer am dwristiaeth a lletygarwch yng Ngogledd Cymru trwy'r rhaglen gyfeillgar hon, a oedd hefyd yn rhoi pecyn hyfforddiant ac ymarferion i ni er mwyn mireinio ein meddyliau, syniadau a nodau am hyn fel gyrfa yn y dyfodol", a dywedodd Prif Weithredwr Twristiaeth Gogledd Cymru, Jim Jones; "Mae cydweithio gyda'r Canolbwynt wedi bod yn amhrisiadwy gan eu bod yn ein cyfeirio at gleientiaid sydd wedi eu gwirio'n drwyadl ac yn meddu ar wir frwdfrydedd ar gyfer cymryd rhan yn y diwydiant."

## NODWCH Y DYDDIAD - DIGWYDDIAD CEFNOGAETH I GYFLOGWYR

- Dydd Iau 8 Chwefror 2024, 8.30am-11am
- Canolfan Fusnes Conwy, Junction Way, Llandudno Junction LL31 9XX

Bydd y Siaradwyr Gwadd yn trafod y pynciau canlynol:

  - Cael Cyllid yn Rhad ac Am Ddim ar gyfer Hyfforddiant
  - Cefnogaeth i Recriwtio
  - Cadw Staff

Cyfleoedd ar gyfer Rhwydweithio a Brecwast wedi'i gynnwys.

Bydd rhagor o fanylion ar gael yn y Flwyddyn Newydd, ond am y tro, nodwch y dyddiad!

## CRONFA ALLWEDDOL POBL A SGILIAU CRONFA FFYNIANT GYFFREDIN Y DU CONWY

Mae'r Gronfa Allweddol Pobl a Sgiliau yn gyfle cyffrous i sefydliadau gynnal prosiectau yng Nghonwy a fydd yn cyfrannu at ymyriadau Pobl a Sgiliau a Lluosi (rhifedd oedolion) Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU.

Mae'r gronfa allweddol yn gallu cefnogi ceisiadau am grant rhwng £50,000 a £249,999.

Gall sefydliadau wneud cais am arian i:

- Helpu i leihau'r rhwystrau y mae rhai pobl yn eu hwynebu o ran cyflogaeth a'u cefnogi i symud tuag at gyflogaeth ac addysg.
- Cefnogi datblygiad sgiliau, cyflogaeth a thwf lleol yn seiliedig ar yr anghenion a nodwyd yn Sir Conwy.
- Helpu i drawsnewid bywydau oedolion drwy wella eu sgiliau rhifedd (Lluosi).

Mae hwn yn alwad agored am brosiectau yn Sir Conwy - mae gennych tan ddydd Llun 29 Ionawr 2024 i gyflwyno ceisiadau.

Am fwy o wybodaeth neu i gyflwyno cais, y gellir ei wneud drwy'r porth ar-lein, cliciwch yma - https://www.conwy.gov.uk/cy/Business/Regeneration/European-and-External-Funding/UK-Shared-Prosperity-Fund-Conwy-Key-Funds/People-Skills-Key-Fund.aspx

**GWOBR PRENTISIAETH**

Mae'r ysbrydoliaeth y tu ôl i brosiect newid bywyd sy'n helpu pobl sy'n dioddef arwahanrwydd cymdeithasol i gael gwaith wedi'i enwebu ar gyfer prif wobr.

Mae Mel Davis, Mentor Cyflogadwyedd Cymunedol gyda Chanolbwynt Cyflogaeth Conwy, yn y rownd derfynol ar gyfer categori Rheoli Prentis y Flwyddyn yng Ngwobrau Prentisiaeth 2024 Grŵp Llandrillo Menai.

Heb unrhyw gymwysterau academaidd blaenorol i'w henw, roedd y fam i bedwar o Hen Golwyn wedi ymuno â'r Canolbwynt chwe mlynedd yn ôl ac anogwyd yn ôl i ddysgu ar gyfer DPP (Datblygiad Proffesiynol Parhaus) ac i helpu i osod y sylfeini ar gyfer ei gyrfa yn y dyfodol.

Aeth Mel ymlaen i ennill nifer o gymwysterau, gan gynnwys Diploma Lefelau 3, 5 a 7 mewn Cwnsela, Hyfforddi a Mentora. Hefyd, llwyddodd i dderbyn Diploma Lefel 4 mewn Rheoli Prosiect a gwnaeth hynny ar ôl derbyn diagnosis dyslecsia, gweithio yn ei swydd bob dydd a chreu'r cynllun cyn-cyflogadwyedd Hyder yn dy Hun hynod llwyddiannus, oedd wedi mwy na dyblu ei ymrwymiad cychwynnol i helpu 30 o bobl ar draws y sir.

Mae hi "wrth ei bodd" ei bod wedi'i henwebu ar gyfer y teitl ond mae'n mynnu y bydd y cyflawniad yn cael ei rannu gyda'r sawl wnaeth gymryd rhan yn y prosiect.

Wedi'i gefnogi gan Gronfa Adfywio Cymunedol Llywodraeth y DU, roedd Hyder yn dy Hun wedi dod â phobl ynghyd ar gyfer mwy na 113 o sesiynau gweithgaredd grŵp dan do ac awyr agored, yn amrywio o sgiliau byw yn y gwyllt, padlfyrddio, e-feicio, ogofau, celf a chrefft a llawer mwy.

"Rydym mor falch gyda'r canlyniadau, wrth dargedu 30 o bobl roedd yna mewn gwirionedd mwy na 60 o bobl oedd wedi cymryd rhan yn y prosiect, nifer ohonynt nawr yn gweithio ac yn mwynhau bywyd, felly mae wedi bod yn hynod o arbennig bod yn rhan o hynny."

Bydd Grŵp Llandrillo Menai yn cyhoeddi enillwyr y Gwobrau Prentisiaeth yn gynnar yn 2024.